

## Cyngor Cymuned Cerrig y Drudion

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed o Ragfyr 2021

Presenol Guto Jones, Trystan Humphreys, Ffion Williams, Maria Roberts (cadeirydd), Einion Edwards, Prys Ellis, John Jones, cyng Peter Lewis a Carol Humphreys (clerc). Cafwyd ymddiheuriadau gan Menai Hughes.

Datgan diddordeb neb yn datgan.

Cofnodion – cadarnhawyd y cofnodion blaenorol fel rhai cywir.

### **Materion yn codi or cofnodion**

**[1] Is gadeirydd** - penodwyd Prys Ellis fel is gadeirydd.

**[1.1] Sedd Wag** - nid oedd neb wedi dangos diddordeb yn y swydd. Dywedodd Peter Lewis efallai ein bod yn colli un sedd yn yr etholiad nesaf felly am wneud ymoliadau gyntaf cyn cario mlaen i gyf ethol.

**[1.2] Bin ailgylchu gwastraff yn y fynwent** – bydd angen talu £20.00 i gael un newydd yn ei le. Pasiwyd i adael tan y gwanwyn ond y clerc i edrych os oes QR code ar y bin arall rhag ofn bod posib tracio y bin a gollwyd. Hefyd mae angen newid yr echel ar y bin sydd yna ac mi fydd hyn yn cael ei wneud yn ddi dal gan y Cyngor Sir.

**[1.3] Cliced y giat Cae Chwarae** – nid oes bwriad gan y Cyngor Sir i roi cliced ar y giat oherwydd nid yn bwrpasol gan mai giat yn cau gyda spring ydi. Cafwyd ardeall bod angen roi sylw ir spring gan ei fod ddim yn cau yn iawn. Cysylltu efo Sir.

### **Yr Agenda**

**[1.4] Eirian Jones Swyddog Ariannu Newydd i gefnogi cymunedau Conwy.** – cafwyd llythyr yn nodi ei bod wedi cael y swydd ac yn barod i roi cymorth ac geisio am grantiau Loteri Genedlaethol. Awgymir ei bod yn dod atom yn ein cyfarfod nesaf i gael mwy o wybodaeth efallai i geisio am grant ir llwybr wrth yr ysgol i drofa Cefn Brith.

**[1.5] Dawns I bawb** – cafwyd llythyr yn gofyn am gyfraniad. Pasiwyd ein bod yn cysylltu nol gan ddweud pan fydd pethau yn dychwelyd yn ol ir ysgolion y byddwn yn fwy tebygol i gyfrannu.

**[1.6] Cyngor Sir Conwy gofynwyd** am £6,000.00 y flwyddyn ariannol nesaf.

**[1.7] Menai Hughes** – talwyd cyflog

**[1.8] Trebor B Jones** – talwyd am dori gwair y fynwent am y flwyddyn £517.00 gan anfon nodyn o ddiolch iddo am ei ei wasanaeth ai amser ar hyn y blynyddoedd.

**[1.9] Brenda Jones** – talwyd iddi am y dorch sul y cofio £17.50.

**[2] Hayden Jones** – talwyd iddo am dorri gwair mynwent yr Eglwys a Tyn Rhyd. £200.00.

**[2.1] Caerwyn Roberts** – talwyd cyflog Caerwyn fel clerc y llynnedd

**[2.2] HMRC - PAYE** - talwyd

**[2.3] Fflam Eryri** – anfoneb am waith ar y boiler yn ystafell y plwyf £85.80 wedi ei dalu.

**[2.4] HSBC** nodwyd y cyfrif.

**Unrhyw fater arall**

**[2.5] Dr Robin Gwyndaf** – mae yn awyddus i roi rhodd o gadair Edward Morris, Perthillwydion ir Cyngor Cymuned iw dangos yn ol ei ddymuniad yn y Llew Gwyn er mwyn i bobl ei gweld yn hytrach nag yn yr ystafell y Plwyf. Ond mae yn pwysleisio mai rhodd ir Cyngor Cymuned ydi er mwyn sicrhau ei bod yn aros yn y gymuned. Prynwyd y gadair yma ganddo ar ol i berthynas iddo ei gweld yn mynd mewn arwerthiant ocswin yn ddiweddar. Bydd clerc nawr yn cysylltu a Dr Robin Gwyndaf yn ddiolch iddo ac iddo wneud trefniadau gyda perchnogion y Llew Gwyn.

**[2.6] Arwyddion dim cwn ar gae chwarae Cae Llwyd** – trafodwyd bod yr arwyddion sydd yma yn barod yn rhy fach gan bod cwn yn mynd ar y cae. Y clerc i wneud trefniadau i gael arwyddion mwy.

**[2.7] Plannu Coed** – Deallwn bod grant i gael i blannu coed ac daeth syniad y buasai plannu ychydig o goed yn y cae chwarae plant yn Ngae Llwyd, buasai cyd weithio gyda plant yr ysgol yn y prosiac yma yn delfrydol. Clerc i gysylltu a Eswyllt Adair.

**[2.8] Llew Gwyn** – pasiwyd i yrru llythyr yn llongyfarch y perchnogion ar y fenter Newydd yma o ail agor y Ty Tafarn.

**[2.9] Cyngor Sir Conwy** - Ceisiadau cynllinio Gosod Gazebo octagon pren yn ysgol Cerrig y Drudion a Dymchwel Anedd presennol a codi annedd yn Minffordd - doedd dim gwrthwynebiad.

**Cadeirydd .....**